## CADER IDRIS

Mae'r clogwyni mwyaf yr ardal ar lethrau gogleddol Cader Idris; ffurfio bwtresi trawiadol sydd wedyn yn crymu i'r Gorllewin mewn tro enfawr o gymoedd, lethrau serth a chlogwyni. Mae gan fryniau eraill sawl agwedd serth, mae'n debyg mai Craig yr Aderyn yw'r enwocaf. Ond, oherwydd newidiadau daearegol i'r dwyrain o Ffawt Bala nid yw'r creigiau'n ffurfio clogwyni mawr. Hefyd, rhaid nodi defnydd y gair tarren fel enw ar fynydd yn yr ardal ac nid nodwedd debyg i glogwyn fel y gwelir ymhellach i'r De yng Nghymru. Gall rhywun nodi hefyd bo'r defnydd o'r term clogwyn wedi diflannu yn yr ardal. Mae sawl craig ag enwau a gymerwyd o'r ffermydd neu'r nodweddion dyffryn, nid ydynt yn cael eu cynnwys yma.

**Cerrig Cochion SH 703135**
Clogwyn maw'r gyda cherrig 'creigiau' + cochion (ffurf luosog coch), enw lleol ydyw, a nid yw'r enw ar fapiau'r AO.

**Cerrig Nimbwl SH 716139**
Beth a olyga Ceryg y Nimbwl, os nad ceryg y nifwl' 1886 Y Geninen. Gall y nifwl 'niwl, cwmwl' yn y cyfeiriad fod yn cyfateb â Hen Lydaweg *nem* 'nefoedd, awyr', Llydaweg Canol *neff* 'awyr'; yn gysylltiedig â Hen Saesneg *nifol* 'tywyll, niwlog', y cyfan yn deillio o'r Indo Ewropeaidd **nebos* 'cwmwl, niwl'. Cerig Nimbwll 6" 1840-80 OS.

**Craig Buarth-glas SH 827160**
Wedi ei enwi ar ol hen fferm Buarth Glas.

**Craig Cwm Amarch SH 710117**
Ceir yr enw Dol-amarch yn y Parochialia c.1700 a'r ffurf Cwm-ammarch ym map 1838 AO; rhoddwyd enw'r fferm yng nghyfres 6" 1840-80 AO fel Pentre Dol-amarch. Mae'r elfen dol 'porfa' yn nodi bod hyn yn enw ar ardal isel o dir; sef y delta gwastad o falurion ôl-rewlifol ar ochr y llyn. Felly gallai'r enw ddod o am- (rhagddodiad gyda synnwyr o gryfhau) + march 'ceffyl'. Os amarch 'anonestrwydd, cywilydd' neu 'orthrwm' yw'r enw mewn gwirionedd, gallai fod yn ymgais i ddisgrifio ardal wael o borfa.

**Craig Cwm Llwyd SH 647122**
Wedi ei enwi ar ol y dyffryn.

**Craig Fach Goch SH 608013**
Wedi ei enwi ar ol y fferm Fach Goch; gyda'r gair bach 'crwm', yn hytrach na bach 'bychan'.

**Craig Goch SH 714084**
Mae'r ardal yma o glogwyn, y rhan sydd yma ar ôl y tirlithriad enfawr a ddigwyddodd ar ddiwedd yr Oes yr Ia, yn dangos y lliwiau porffor a brown gaeafol y mwyar a'r grug a geir yma. Y graig koch c.1700 Parochialia.

**Craig Hen-gae SH 758104**
Daw enw'r clogwyn o hen enw fferm 'hen, gwreiddiol' + cae 'ceufan'; felly, y gallai ddynodi un o'r dirfeddiannaeth gyntaf yn y dyffryn.

**Craig Las SH 673134**
Craig 'clogwyn, graig' + (g)las 'llwyd, glaucous'; dyma enw ar glogwyni Tyrrau Mawr, nid yw'r enw ar fap yr AO.

**Craig Lwyd SH 654108**
Weithiau, fel yma, nid oes clogwyn dim ond darnau o greigiau a thir serth. Rhaid cofio y byddai

Mynyddoedd.co.uk

llethr creigiog fel hyn yn gweld y llystyfiant yn 'llosgi' yn yr haf; hefyd, bod y term lliw llwyd yn cael ei ddefnyddio i ddynodi llawer o liwiau cochlyd nid yn unig llwyd 'grey'.

**Craig Maesglase SH 827140**
Enw'r fferm, enw sy'n llygriad o'r ffurf Maesglasfre.

**Craig Pentref SH 668058**
Y graig agosaf i bentref Abergynolwyn.

**Craig Pen y Meini SH 861093**
Pen y Meini yw'r enw ar y fferm islaw. Penmeiny 1682 Llawysgrifau Peniarth, Penmeini 1796 Cambrian Register.

**Craig Rhiw-erch SH 819152**
Rhiw 'llechwedd' serth ofnadwy; man peruglus i ddring'i fyny (neu mynd i lawr). Rhaid dewis rhwng erch 'brych, brith, llwytgoch'; neu, erch 'dychrynllyd, erchyll'.

**Craig Rhwyddfor SH 734122**
Yn lleol, yn lleol rhwy, rhwyf 'brenin, arglwydd, pennaeth, arweinydd' yw'r elfen gyntaf; mae eraill yn cefnogi un o'r synhwyrau niferus ar gyfer y gair rhwydd, megis - 'hawdd'; 'dirwystr'; 'agored'. Disgrifydd o'r ffordd y mae'r dyffryn yn torri drwy'r mynyddoedd uchel? Kwmrhwythor 1609 & Cwm Rhyddor 1657 Llawysgrifau Maesyneuadd, Kwm y Rhwydhor c.1700 Parochialia, Craig Cwm-rhwyddfor 1837 AO.

**Craig y Bwlch SH 800167**
Y bwlch yw'r Bwlch Oerddrws, llwybr pwysig drwy'r mynyddoedd i lawer dros y canrifoedd.

**Craig y Llam SH 748127**
Mae llam yn dynodi unrhyw fath o ddisgynfa neu naid, ac yn ffigwrol clogwyn serth. Gweler yr elfen yn y gair llamysten 'cudyll glas, gwalch glas (sparrow-hawk): *Accipiter nisus* ; tybed os cyfeiriad at yr adar yw'r enw? Ymddangosodd y ffurf Kraig y Lham ochr yn ochr â'r enw Y Tyrre hirrion 'y tyrrau tal' yn y Parochialia, c.1700, y tyrau hyn yw'r bwtresi mawr ar hyd ochr ddeheuol Cwm Rhwyddfor. Yn union uwchben llyn bach, o'r enw Llyn Bach(!)/Llyn Y Tri Greyenyn ar ben y bwlch, mae enw ar un bwtres nodedig, sef Pen y Delyn.

**Craig y Llyn SH 660115**
Mae hyn yn dal i gael ei ysgrifennu gyda chysylltau, nad oes eu hangen; y llyn dan sylw yw Llyn Cyri.

**Craig yr Aderyn SH 643069**
Mae yna nythfa enwog o'r aderyn Morfran: *Phalacrocorax carbo* i'w gweld yma yn ogystal ag adar eraill sy'n byw ar y clogwyni. Mae'r creigiau yn atgof o ffurf aderyn â'i adain yn ymestyn allan.

**Cribin Fawr SH 801152**
Mae crib 'brig, cefnen' + -in 'olddodiad bachigol' yn un 'mawr' mewn cymhariaeth â 800158 **Cribin Fach**, sef yr un lleiaf o'r ddau.

**Daear Fawr SH 703117**
Does dim llawer o glogwyn yma, mae'r enw'n disgrifio ardal garw iawn gyda chlogfeini mawr a thir anwastad lle ac yn annifyr i ddefaid ond mae'n lle da i lwynogod fyw - daear 'tir, daear' + mawr 'anodd, garw'. Daear Fawr 6” 1840-80 AO.

Mynyddoedd.co.uk

**Gallt Ffynnon yr Hydd SH 609117**
Mae'r disgrifiad gyda gallt 'llechwedd' + ffynnon 'ffynhonnell'+ yr + hydd 'carw' yn edrych yn syml, man ble roedd yr anifeiliaid yn dod i lawr i yfed. Fodd bynnag, ffynnon haearn 'chalybeate', ffynnon sy'n cynnwys halwynau mwyn gan gynnwys halwynau haearn hefyd, y bydd blas haearn ar y dŵr a lliw rhydlyd iddo hefyd, yn ogystal â dyddodion rhwd o gwmpas y ffynnon. Byddai'r lliw rhydlyd hwn yn dwyn i gof y gair rhudd 'coch, cochlyd'; felly rhaid cofio bo'r gair rhydd yn aml yn cael ei ddrysu gyda'r seiniad tebyg 'yr hydd'. Gallt-ffynnon-yr-hydd 1837 AO.

**Gesail SH 743136**
Nid yw'r enw wedi'i gofnodi ar y map AO presennol; mae'r creigiau yn cyd-fynd â'r ffurf a ddisgrifir yn y term gesail 'cil, cilfach'.

**Tapiau'r Bele SH 729152**
Tapiau yw lluosog y gair tap 'craig, gordo', tra gall y gair bele ddynodi dwy set wahanol o fwystfilod; naill ai, 'bele'r coed, gwenci, ffwlbart' neu 'blaidd, bwystfil rheibus'.

**Tapiau Cenawon SH 739133**
Mae'r term cenawon yn lluosog o genau 'arth neu flaidd ifanc'; fodd bynnag, yn yr ardal, defnyddir y term i ddisgrifio 'llwynogod' yn gyffredinol. Gwyddeleg Canol cano, cana 'wolves'.

**Tap y Nyth SH 729156**
Mae'n bosibl bod yr enw tap 'clogwyn' + y + nyth 'adeiladwaith adar' yn disgrifio lleoliad ardal nythu fawr neu amlwg; mae nifer o adar mynydd yn adeiladu nythod mawr. Daw'r gair nyth yn ogystal â'r Hen Gernyweg '*neid*' a'r Hen Wyddeleg '*net*', o'r Indo Ewropeaidd **nizdo-*.

**Tap Ffridd Windo SH 679117**
Mae'r ffridd 'porfa mynydd' + tap 'craig'; sydd wedi ei leoli mewn man windo 'gwyntog' iawn yn ôl gwybodaeth lleol.

**Tapiau Gwartheg SH 696130**
Mae'r tapiau 'creigiau' hyn yn ardal ble byddai'r gwartheg yn ymgynnull. Maent yn uchel iawn ar ochrau'r mynydd ac yn dangos bod gwartheg yn pori'r bryniau ar un adeg nid defaid. Mae rhai gwartheg yn dal i bori drwy gydol y flwyddyn yn yr awyr agored ar rhai ffermydd.

**Tarren Cwm Ffernol SH 660018**
Ar fapiau'r AO presennol dyma'r enw ar fryn, rhan o'r gefnen hir sy'n ymestyn i lawr o gopa Tarren Hendre. Ond y darren 'clogwyn, craig' yw'r bwa o dir serth ar flaen y dyffryn.

**Twll y Gwter SH 744142**
Nid yw'r enw hwn ar fapiau'r AO, ond mae'r term twll 'ceudod, hafn, ogof' + y + gwter 'sianel' yn disgrifio'r gornel gul neu'r hafn drwy'r clogwyni.

**Twr Du/ Tap Du SH 719135**
Nid oes enw ar y clogwyn hwn ar y mapiau, yr enw lleol yw naill ai tap 'clogwyn, gordo'; neu, twr 'pentwr' + du 'du, tywyll'. Mae'r enw i'w weld ar fapiau AO 6" 1848-80 cynnar ac ail gyfres 6" mapiau AO 1888-1913.

**Twr Glas SH 670164**
Twr 'crug, pentwr' + glas 'llwyd, llwydwyrdd' yw'r enw ar y creigiau sy'n creu y sgarp toriedig; Hen Gymraeg *twrr* 'pentwr', yn gysylltiedig a Gwyddeleg *torr* 'bryn uchel, tomen'. Twr Glas 6" 1840-80 AO. Mae'n hawdd cymysgu twr 'pentwr, twmpath' gyda'r gair benthyg tŵr 'adeilad waith castell'; o'r Hen Ffrangeg *tor* 'tŵr'.

Mynyddoedd.co.uk

**Twr Maen SH 711121**
Unwaith eto twr 'pentwr' neu 'tŵr' + maen 'carreg'. Yr enw a ddefnyddir gan ddringwyr creigiau yw'r enw gwneud Piler Pencoed.

**Y Daran SH 646138**
Y tebygrwydd yw mai Y Darren oedd yma'n wreiddiol. Daren 6” 1840-80 AO.

**Y Gau Craig SH 745145**
Mae'r gair cau 'amgaeedig, cysgodol' yn derm cyffredin iawn yn y dirwedd ac mae'n ddisgrifiad ardderchog o'r cwm bach hwn.

Mynyddoedd.co.uk